

Cyngor Cymuned Llanystumdwy,

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor a gynhaliwyd ar nos Iau, Mai 11eg, 2017 yn Ffestri Capel Pencaenewydd.

Yn bresennol: Y Cynghorwyr Marian Evans, (Cadeirydd); William Ifor Hughes; Aled Lloyd Evans; Margaret Griffith; Tegid Jones; Trefor Wyn Jones; Anwen Jones; Naomi Jones a'r Clerc. Doedd neb o'r trethdalwyr yn bresennol.

1. Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a chafwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Sian Angharad Parry a Thomas Prys Jones.

2. Adroddiad ar waith y flwyddyn Ebrill1af, 2016 i Fawrth 31ain, 2017 gan y Cadeirydd. Soniwyd am waith arferol y Cyngor sef torri'r llwybrau yn y gymuned; torri cae chwarae Llanybi; torri a chlirio tir y Cyngor ym Maenywern, Llanystumdwy; cadw safle bedd David Lloyd George yn daclus a chadw'r safleoedd bws yn y gymuned yn daclus. Rhannwyd £2,300- yn bennaf yn y gymuned. Un gwaith swmpus y buwyd yn ymwneud ag ef oedd ymateb i'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd, Gwynedd a Môn a diolchwyd i'r Cynghorwyr ymgwymerodd â'r gwaith. I orffen diolchwyd i'r Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol am ei waith gydol y flwyddyn.
3. Adroddiad Ariannol am y flwyddyn Ebrill1af, 2016 i Fawrth 31ain, 2017 gan y Clerc a'r Swyddog Ariannol Cyfrifol. Rhoddwyd adroddiad ariannol lawn a rhannwyd crynodeb o gyfrifon Incwm a Gwariant am y flwyddyn ac eglurwyd y gwariant fesul pennawd a rhannwyd copiau o gysoniad y banc dros yr un cyfnod. Cafwyd ateb i ambell gwestiwn a phenderfynwyd derbyn y cyfrifon am y flwyddyn fel rhai cywir. Maent yn awr yn barod ar gyfer yr Archwilydd Mewnol fydd yn mynd drwy'r cyfrifon ar Fai 22ain ymlaen. Bydd y cyfrifon ar safle we'r Cyngor ar ôl yr archwiliad mewnol ac allanol.
4. Cyfle i'r trethdalwyr ofyn cwestiynau. Doedd neb yno i ofyn cwestiynau.
5. Dewis swyddogion am y flwyddyn Ebrill1af, 2017 i Fawrth 31ain, 2018: a) Cadeirydd. Penderfynwyd gofyn i'r Cynghorydd Marian Evans gario ymlaen am flwyddyn arall.b) Is gadeirydd. Penderfynwyd gohirio tan gyfarfod mis Gorffennaf o'r Cyngor.c) Ysgrifennydd a Swyddog Ariannol Cyfrifol. Penderfynwyd gofyn i'r Clerc presennol gario ymlaen.ch) Elusen William Ellis, Llanystumdwy, Cynghorwyr Ward Llanystumdwy. Cadarnhawyd mai Cynghorwyr Ward Llanystumdwy sydd yn rhannu o'r elusen yma.

It is possible to get an English translation of any minute; contact the Clerk